Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Penrhos**

**Tŷ Penrhos**
**2 Ffordd Beddau**
**Caerffili**
**CF83 2AX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13 Medi 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thŷ Penrhos

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Hafod Housing Association Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 83 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Nhŷ Penrhos yn hapus ac yn hoffi eu gweithwyr gofal. Mae eu llesiant yn cael ei beryglu gan nad yw'r darparwr wedi nodi'r cymorth sydd ei angen i reoli'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth dros yr wyth mis diwethaf. Mae angen ystyried y lefelau staffio er mwyn darparu gwell cyfleoedd a chanlyniadau i'r bobl. Darperir gofal a chymorth gan dîm o staff tosturiol sy'n gweithio i wneud gwahaniaeth i fywydau a llesiant y bobl. Mae cynlluniau gofal wedi cael eu gwella ond mae angen cysondeb ledled y cartref ynghylch dogfennau a chofnodion. Mae gan y bobl fynediad at ofal iechyd arbenigol os oes angen hyn arnynt ac mae'r gwasanaeth yn dangos ei fod yn monitro iechyd y bobl ac yn rhoi mesurau ar waith er mwyn ei gynnal neu ei wella.

Mae'r amgylchedd yn olau ac yn gynnes ac yn ymddangos yn lân, ond mae arwyddion bod diogelwch y bobl yn cael ei beryglu gan fod cyflwr gwael y carped a diffyg staff i ddarparu glanhau dwfn trwyadl mewn rhai ardaloedd yn cynyddu'r risg o ledaenu heintiau.

Mae'r darparwr wedi penodi unigolyn cyfrifol i oruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn yn newydd i'r rôl. Mae rheolwr newydd yn ei swydd hefyd. Mae'r newidiadau hyn, yn ogystal â'r gofynion sefydliadol ynghylch systemau cofnodi a chyllidebau, wedi rhoi pwysau ar y cartref fel bod y gofal a ddarperir wedi'i beryglu. Mae aseswyr nyrsio'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r cartref i sicrhau gwelliant a chynaliadwyedd. Disgwyliwn i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i gefnogi'r gwasanaeth i addasu i'r gofynion presennol a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a medrusrwydd digonol.

## Llesiant

Mae gwybodaeth ar gael ac mae'r bobl yn byw mewn cartref lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn. Mae gan y bobl fynediad at wybodaeth sy'n eu helpu i ddeall yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig ond nid yw hyn yn amlinellu'n glir y lefelau staffio a'r sylw y gall rhywun ei gael yn ôl yr angen. Mae'r cartref wedi'i rannu'n unedau llai lle mae'r bobl yn dod i adnabod eraill sy'n byw yno a'r staff rheolaidd sy'n eu cefnogi. Bu trosiant staff uwch na'r arfer, sy'n golygu nad yw'r bobl bob amser yn cael cyfle i ddatblygu perthynas waith dda gydag aelodau o'r staff, ond mae nifer craidd o wynebau cyfarwydd yn darparu rhywfaint o barhad.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu helpu i gyflawni'r nodau a nodwyd gan fwyaf, ond mae risgiau na ellir darparu gofal sylfaenol yn effeithiol. Mae cofnodion cyn-derbyn, asesiadau risg a chynlluniau gofal yn amlinellu'r hyn yr hoffai rhywun ei gyflawni. Mae hyn yn hysbysu staff sut y gallant helpu'r unigolyn i gyflawni'r nodau hyn. Oherwydd newid yn y systemau cofnodi, mae bylchau yn yr wybodaeth, ond mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac yn gweithio gyda'r tîm o arweinwyr i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyflawn ac yn gyson. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol fel hyfforddiant maeth a hyfforddiant gofal croen. Mae nyrsys a rheolwyr yn monitro anghenion clinigol ac yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol allanol os oes angen. Mae'r bobl mewn mwy o berygl o beidio â chael cymorth priodol i gynnal a gwella eu llesiant. Trefnir gweithgareddau ac mae'r bobl yn cymryd rhan os gallant. Nid yw'r bobl sy'n derbyn gofal yn y gwely wedi cael y lefel o gymorth un-i-un sydd ei hangen er mwyn hybu eu llesiant cyffredinol ac mae'r staff yn egluro nad oes ganddynt yr amser hyd yn oed i dylino eu dwylo. Er bod rhai teuluoedd yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y cyfathrebu, y gofal a'r cymorth, mae eraill yn codi pryderon ynghylch anhawster cyfathrebu â'r cartref, ac yn dweud hefyd nad yw'n ymddangos bod digon o staff ar brydiau. Mae'r staff rheolaidd wedi bod dan bwysau i ddarparu gofal a chymorth oherwydd newidiadau yn y lefelau staffio a orfodwyd gan y sefydliad ac oherwydd trosiant staff sydd yn uwch na'r arfer. Mae gofal sylfaenol, fel darparu cymorth i rywun i fwyta, ar waith, ond ni chaiff hwn ei ddarparu mewn modd amserol.

Mae'r bobl yn gallu mynegi eu barn, ond ni ddarperir cyfleoedd cyson i wneud hynny. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon os oedd ganddynt rai. Mae gan y bobl wybodaeth am sut i fynegi pryder, a phan godir pryderon, mae'r rheolwr yn dangos bod y rhain yn cael eu datrys yn gyflym. Mae'r darparwr yn defnyddio adnoddau fel arolygon i gasglu adborth am y gwasanaeth ac ansawdd y gofal. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain, a chaiff cynlluniau gweithredu eu creu i helpu i wella meysydd sydd angen sylw, ond canfuom fod yr wybodaeth yn cael ei dadansoddi mewn modd detholus ac nid yw'n dangos bod y darparwr wedi gwrando ar bopeth sydd gan y bobl i'w ddweud.

Mae sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn cael ei ystyried gan y darparwr. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud wrthym eu bod yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o 'ddiogelu', fel eu bod yn gwybod sut i amddiffyn y bobl a mynegi pryderon os ydynt yn amau unrhyw fath o gamdriniaeth. Mae'r adeilad yn ddiogel a gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi. Mae'r bobl ar y cyfan yn cael eu hamddiffyn rhag risg o haint, ond oherwydd prinder staff, ni fu'n bosibl glanhau rhai rhannau o'r cartref yn drwyadl. Mae carpedi sydd gwir angen eu hadnewyddu hefyd yn peri risg i iechyd a diogelwch, yn ogystal â risg i lesiant, gan i ni ganfod bod ganddynt arogl drwg.

## Gofal a Chymorth

Mae gwybodaeth ar gael i'r bobl cyn iddynt benderfynu byw yn Nhŷ Penrhos yn y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ac yn y datganiad o ddiben. Cynhelir asesiadau cyn-derbyn yn bersonol gan aelod addas o'r tîm gofal fel y gellir casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am yr unigolyn, ond nid yw'r dogfennau sy'n ymwneud â hyn bob amser yn cael eu storio er mwyn medru cyfeirio atynt yn y dyfodol. Mae cynlluniau personol ar waith sy'n cynnwys dogfennau perthnasol, gan gynnwys asesiadau risg a chynlluniau gofal. Mae gwelliannau a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â chynlluniau gofal wedi'u gwneud, gyda gwell fformat ac anogaeth i'r staff i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i bob agwedd ar anghenion a gofynion cymorth unigolion. Gwelsom hefyd rywfaint o welliant yn y manylion yn y nodiadau dyddiol unigol, a'r broses o gofnodi cyfranogiad y bobl mewn adolygiadau, ond nid oedd hyn yn gyson ar draws y gwasanaeth. Gwelsom fylchau yn y cofnodion gan nad oedd gan y gweithwyr gofal yr amser i gofnodi gwybodaeth am weithgaredd cyn gynted ag yr oedd yn digwydd. Mae hefyd yn ofynnol i'r staff gofnodi'r un wybodaeth ar sawl dogfen wahanol, sy'n llafurus.

Darperir gofal gan dîm o weithwyr gofal a nyrsys sy'n adnabod yr unigolion yn dda iawn. Gwelsom gydberthnasau cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff, gyda gofal yn cael ei ddarparu mewn modd parchus, er bod hyn yn cael ei frysio weithiau. Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwelwyd gofal priodol, gan gynnwys symud y bobl a darparu cymorth iddynt fwyta. Caiff anghenion clinigol eu diwallu gan nyrsys cymwysedig rheolaidd. Cynigir dewis o ran pryd i godi a gwisgo a phryd i fwyta pan fo’n bosibl, ond mae dogfennau'r gwasanaeth, ac adroddiadau gan weithwyr proffesiynol, yn dangos nad yw'r bobl yn cael dewisiadau ar adegau pan fydd salwch neu absenoldeb yn effeithio ar lefelau staffio ac, yn fwy diweddar, pan fydd adolygiadau o’r gyllideb yn effeithio ar y lefelau staffio. Mae'r staff yn dweud wrthym, *“Y pethau bach sydd wedi mynd, fel cael amser i ddal llaw rhywun a chael sgwrs.”* Mae'r bobl yn cael eu hatgyfeirio'n briodol at weithwyr iechyd proffesiynol allanol, gan gynnwys gwasanaethau trin traed a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae teuluoedd y bobl y buom yn siarad â nhw, a'r bobl eu hunain, ar y cyfan yn hapus gyda'r gofal sy'n cael ei roi ac nid oes ganddyn nhw unrhyw bryderon am y gwasanaeth. Dywedodd un teulu wrthym fod cyfathrebu’n dda a’u bod yn cael eu hysbysu a’u cynnwys yn gyson, yn enwedig gan eu bod yn cynrychioli rhywun nad oes ganddo alluedd meddyliol. Fodd bynnag, mae gweithiwr cymdeithasol wedi codi pryderon gan nad yw’r gwasanaeth yn sicrhau bod buddiannau rhai o'r bobl yn cael eu cynrychioli pan fydd penderfyniadau’n cael eu gwneud, ac nid oedd gan un perthynas hyder bod y gwasanaeth yn darparu gofal priodol.

Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau wedi'u trefnu, gan gynnwys teithiau i'r gymuned. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn hysbysebu am aelod o staff i fod yn gydgysylltydd gweithgareddau ychwanegol fel y gellir cynnig mwy o gyfleoedd i'r bobl.

Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio'n gymdeithasol â'r bobl pan allant ac yn annog y bobl i ymgysylltu â'i gilydd. Mae'r profiad amser bwyd yn amrywio ar draws y gwasanaeth. Pan fo'n bosibl ac yn briodol, mae'r bobl yn cael eu cefnogi i eistedd wrth fyrddau bwyd i fwynhau pryd wedi'i goginio yn y cartref. Gwelsom arfer da ar un uned ond dywedir wrthym nad yw hyn bob amser yn digwydd. Gwelsom y gweithwyr gofal a'r nyrsys yn darparu cymorth sensitif i'r bobl wrth eu cynorthwyo i fwyta, pan oeddent yn gweithio o dan amgylchiadau anodd ar unedau lle mae lefelau staffio yn is na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer amser bwyd. Mae angen ystyried monitro amseroedd prydau bwyd yn effeithiol i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a bod digon o staff ar gael i sicrhau y gellir darparu cymorth amserol ym mhob uned.

## Yr Amgylchedd

Mae hwn yn arolygiad â ffocws, felly nid yw'r amgylchedd wedi'i ystyried yn llawn.

Mae'r cartref, sydd wedi ei adeiladu'n bwrpasol, yn olau ac yn gynnes gyda digon o le. Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda chyfleusterau en suite, a gallant roi naws bersonol i'w hystafelloedd os dymunant. Mae gan y cartref ardaloedd ar wahân a elwir yn unedau lle mae pobl ag anghenion tebyg yn byw. Rheolir pob uned yn annibynnol gan nyrs arweiniol. Mae ardal gymunol o'r enw 'Y Stryd' yn cael ei defnyddio'n helaeth ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a rhyngweithio rhwng pobl o bob uned. Gwelsom sut roedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol gan un uned er mwyn cefnogi'r bobl sy'n fwy annibynnol i eistedd wrth fwrdd bwyta gyda'i gilydd, fel pe baent mewn bwyty.

Mae'r darparwr wedi dangos ymdrechion a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf i fynd i'r afael ag atgyweiriadau a gwaith adnewyddu yr oedd angen eu gwneud ac a oedd wedi eu nodi fel maes i'w wella yn ystod arolygiad. Mae angen gwneud rhagor o waith, yn enwedig i sicrhau bod carpedi ystafelloedd gwely yn cael eu hadnewyddu gan fod rhai wedi treulio ac ni ellir eu glanhau'n effeithiol. Mae hyn yn golygu bod arogl drwg mewn rhai rhannau o'r adeilad.

Nid yw pob man wedi'i lanhau'n ddwfn oherwydd prinder staff a salwch hirdymor aelodau'r tîm cadw tŷ. Nid yw'r darparwr wedi gwneud trefniadau eraill i sicrhau bod lefelau staffio'r tîm cadw tŷ yn cael eu cynnal, felly ni all y bobl fod yn hyderus bod y gwaith o atal a rheoli heintiau o safon uchel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae unigolyn cyfrifol newydd ei benodi wedi ymweld â'r cartref, wedi ymgynghori â'r bobl a'r staff, ac wedi cynhyrchu adroddiadau i adlewyrchu ei ganfyddiadau ynghylch ansawdd y gofal. Nid yw'r holl adroddiadau y gofynnwyd amdanynt wedi'u darparu. Dangosodd un adroddiad o 2021 nad oedd ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i ddata a oedd wedi'i gasglu a bod angen ailedrych ar y data, gan gynnwys datganiadau ynghylch y bobl yn teimlo'n ‘unig’. Mae polisïau ar gael. Mae datganiad o ddiben, sef dogfen sy'n egluro'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth, ar waith ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a gellir ei ddarparu yn Gymraeg. Nid yw’r ddogfen yn glir ynglŷn â lefelau staffio, gan ond sôn am oriau gofal cyffredinol, felly ni all y bobl sydd am ddefnyddio’r gwasanaeth ddeall yn hawdd faint o staff fydd ar gael ar unrhyw un adeg. Mae rheolwr sydd newydd ei benodi ar gyfer y gwasanaeth yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan ei reolwyr llinell uniongyrchol, ond mae diffyg tystiolaeth ei fod wedi cael ei gefnogi'n llawn i ymgymryd â'r rôl newydd a'r gofynion y mae'r sefydliad wedi'u gosod, megis y lefelau staffio yn dilyn adolygiadau cyllideb.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff sy'n wybodus, yn gymwysedig ac yn fedrus ond mae angen ailystyried y newidiadau i lefelau staffio a weithredwyd ym mis Gorffennaf ac Awst ar rai unedau fel rhan o'r adolygiadau cyllideb. Dywedodd y gweithwyr gofal a'r nyrsys wrthym nad oes digon o staff mewn rhai unedau i ddarparu gofal a chymorth da, a bod niferoedd staff isel yn effeithio ar safonau gofal. Gwelsom dystiolaeth o hyn mewn cofnodion, ond sicrhawyd gwelliannau yn ystod pythefnos cyntaf mis Medi, pan ddychwelodd lefel y staffio i lefelau blaenorol. Mae'r darparwr yn defnyddio offeryn dibyniaeth i helpu i gyfrifo'r lefelau staffio sydd eu hangen, ond nid yw hyn yn effeithiol ynddo'i hun. Mae comisiynwyr yr awdurdod lleol ac aseswyr nyrsio y bwrdd iechyd lleol yn cefnogi'r gwasanaeth, gan ei helpu i nodi lefelau staffio priodol a ffyrdd o wella'r broses o symleiddio a chofnodi'r gofal a ddarperir yn gywir. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff mewn rhai unedau yn cael amser i eistedd gyda'i gilydd i siarad cyn neu yn ystod gweithgaredd fel amser cinio, ond ar unedau eraill nid oedd modd cefnogi'r bobl i fwyta mewn modd amserol gan fod y staff mor brysur.

Mae Tŷ Penrhos wedi bod yn destun llawer o newidiadau dros yr wyth mis diwethaf, gan gynnwys newidiadau i'r personél rheoli, newidiadau i'r strwythur trefniadol a newidiadau i fformat y dogfennau. Mae hyn yn golygu bod angen adolygu ac ailysgrifennu'r holl waith papur ynghylch cynllunio gofal. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd ag adolygiadau cyllideb, wedi cael effaith negyddol ar y staff ar draws y gwasanaeth, ac mae eu hysbryd yn isel iawn. Cafwyd trosiant staff uwch na'r cyfartaledd, sydd hefyd wedi effeithio ar y gwasanaeth, gydag arwyddion bod nifer o'r staff eraill hefyd wedi ystyried gadael. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ystyried yr anawsterau y mae'r gweithlu wedi'u hwynebu dros y misoedd diwethaf ac mae'n bwriadu gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth i sicrhau sefydlogrwydd o fewn y tîm ac ymdrechu i godi ysbryd yr aelodau. Gofynasom am dystiolaeth o sut mae’r

gwasanaeth wedi cael ei gefnogi yn ystod yr amser hwn er mwyn addasu i’r newidiadau ac i ddeall y newidiadau a oedd yn ofynnol oherwydd gostyngiad yn y gyllideb, ond nid ydym wedi derbyn hyn. Gwelsom fod llawer o ffactorau wedi effeithio ar feysydd i'w gwella yn y cartref, gan gynnwys atal heintiau, dogfennau gofal a chyflenwi gofal, ond gellid bod wedi osgoi'r ffactorau hyn pe bai gan ddarparwr y gwasanaeth systemau addas ar waith i gefnogi newid a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei darparu â gofal, cymhwysedd a medrusrwydd digonol. Mae hwn yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau. Caiff hyn ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 6 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gan y gwasanaeth ddigon o weithwyr gofal i sicrhau nad oes effaith ar y bobl pan fydd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith. | Newydd |
| 44 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod yr eiddo'n cael ei gynnal a'i gadw'n briodol; mae hyn oherwydd bod un balconi yn gollwng ac yn gadael dŵr i fynd i mewn i'r cartref. Mae mesurau dros dro ar waith i helpu i atal hyn rhag digwydd ond mae angen ateb parhaol a dibynadwy. Esboniodd yr unigolyn cyfrifol mai diffyg argaeledd dur addas oedd yn gyfrifol am yr oedi yn y gwaith atgyweirio (gan nodi'r pandemig a Brexit fel yr achosion posibl), a rhoddodd sicrwydd bod y datrysiad dros dro yn effeithiol ac yn cael ei fonitro bob wythnos. Mae angen gwaith adnewyddu ar rai ardaloedd o fewn y cartref ac mae angen unedau storio newydd mewn rhai rhannau o'r cartref er mwyn gallu storio eitemau bwyd yn fwy diogel. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod pob un cynllun personol yn adlewyrchu canlyniadau mwy personol y mae unigolion yn eu hystyried yn bwysig iddynt. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod cynlluniau gofal ar gyfer meysydd penodol yn canolbwyntio ar iechyd, sy'n golygu bod y gofal yn canolbwyntio ar dasgau i raddau helaeth. Mae cyfleoedd i gasglu hanes cymdeithasol a theuluol unigolion er mwyn llywio'r hyn a allai fod yn bwysig i rywun yn cael eu colli. Pan fyddai'r staff wedi nodi rhywbeth y mae unigolion yn ei hoffi, nid yw'n cael ei adlewyrchu yn y cynllun gofal bob amser ac felly nid yw pob aelod o staff yn ymwybodol o'i bwysigrwydd. Lle mae cofnod o ddiddordebau pobl, nid yw'r canlyniadau ynghylch hynny'n cael eu cofnodi ac ni ddarperir cynlluniau gofal. Lle mae diffyg galluedd gan y bobl, nid yw'r cynrychiolwyr yn cymryd rhan yn y broses o nodi canlyniadau y tu allan i faterion gofal iechyd. Nid yw'r cynlluniau personol yn dangos bod yr unigolyn na'r cynrychiolydd wedi bod yn rhan o hyn. Nodwyd hwn gan y sefydliad fel maes i'w ddatblygu ac mae'n gweithio ar ffyrdd o sicrhau bod canlyniadau'r bobl yn cael eu cofnodi a'u mesur, ond gan fod hwn yn waith ar y gweill o hyd, mae'r gwasanaeth yn torri'r gofynion rheoliadol ynghylch hwn. | Cyflawnwyd |
| 16 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod y bobl na'u | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | cynrychiolwyr yn cymryd rhan yn yr adolygiadau o'u cynlluniau personol. Ystyrir canlyniadau ond maent yn canolbwyntio ar iechyd yn bennaf, yn hytrach nag adlewyrchu'r hyn sydd wir yn bwysig i'r unigolyn. Pan fydd adolygiadau misol ynghylch pwysau yn dangos colli pwysau, nid yw’r cynllun gofal yn cael ei ddiweddaru gyda'r camau gweithredu perthnasol sy’n ofynnol i gefnogi'r unigolyn ar y llwybr maeth. | |

**Dyddiad cyhoeddi** 29/12/2022